Rhif: WG40097

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Chwefror 2020

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80038-139-1

Crynodeb o'r Ymatebion i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
Cymru Fwy Cyfartal: Dechrau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Cynnwys

Cefndir 2
Yr Ymgynghoriad 2
Manylion yr ymgynghoriad 3
Cwestiwn 1 – Y termau allweddol 3
C1A 3
C1B 4
C1C 6
C1D 7
Cwestiwn 2 - Y Cyrff Cyhoeddus sy'n cael eu Cynnwys Gan y Ddyletswydd 9
C2A 9
C2B 10
Mae Adran 3 yn dangos y syniadau cyntaf am y mathau o gamau y gallai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i ddangos eu bod yn cyfarfod â'r ddyletswydd. 10
C3A 10
C3B 10
C3C 11
C3D 12
C3E 12
C3F 13
Mae Adran 4 yn archwilio'r cysylltiadau rhwng y Ddyletswydd Economaidd - gymdeithasol a'r dyletswyddau eraill y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cyflawni. 14
C4A 14
C4B 15
Cwestiwn 5 – Dogfennau Cefnogi 16
C5A 16
C5B 17
Cwestiwn 6 – Y Gymraeg 17
Cwestiwn 7 – Y Gymraeg 18
Cwestiwn 8 – Crynodeb o'r ymatebion 19
Atodiad – Cymru Fwy Cyfartal: Dechrau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol 21

Cefndir

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw gweithredu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig yng nghyd-destun gadael yr Undeb Ewropeaidd. Un agwedd o'r gwaith hwn yw trwy ddechrau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – ymrwymiad o faniffesto'r Prif Weinidog.

Mae hynny'n cynnwys cyflawni Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus penodol, wrth gymryd penderfyniadau strategol megis 'penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion', ystyried sut y gallai'u penderfyniadau fod o gymorth i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfanteision economaidd-gymdeithasol.

Cynigir y bydd y ddyletswydd yn berthnasol i'r cyrff cyhoeddus cymwys canlynol, gan yr ystyrir eu bod wedi bodloni'r 'prawf' o dan adran 2(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- ✓ Gweinidogion Cymru;
- ✓ Byrddau Iechyd Lleol;
- ✓ Ymddiriedolaethau GIG;
- ✓ Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru (AaGIC);
- ✓ Awdurdodau Lleol;
- ✓ Gwasanaethau Tân ac Achub;
- ✓ Awdurdod Refeniw Cymru; ac
- ✓ Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig:

- Gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol, wrth iddyn nhw gymryd penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai'u penderfyniadau fod o gymorth i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Gofyn i gyrff cyhoeddus penodol ddangos tystiolaeth o drywydd archwilio clir ar gyfer yr holl benderfyniadau sy'n cael eu cymryd o dan y ddyletswydd.
- Gofyn i gyrff cyhoeddus penodol ddangos sut y maen nhw wedi cyflawni eu dyletswydd statudol – er nad oes gofyn adrodd yn ôl.
- Sicrhau bod y cysylltiadau rhwng dyletswyddau'n cael eu deall a'u rheoli'n effeithiol.

Gofynnwyd am sylwadau ar y meysydd canlynol:

- Y termau allweddol
- Y Cyrff Cyhoeddus y mae'r Ddyletswydd yn eu cynnwys
- Cyfarfod â gofynion y Ddyletswydd
- Cysylltiadau rhwng hyn a'r Dyletswyddau eraill
- Y Gymraeg

Manylion yr ymgynghoriad

Bu'r ymgynghoriad yn rhedeg am wyth wythnos o 22 Tachwedd 2019 hyd at 17 Ionawr 2020.

Gallai rhanddeiliaid ymateb i'r ymgynghoriad mewn sawl ffordd.

- Trwy gyflwyno ffurflen ymateb trwy e-bost neu trwy'r post
- Trwy gyflwyno ffurflen ymateb hawdd ei darllen trwy e-bost neu drwy'r post
- Trwy borth ar lein
- Trwy un o'r pum digwyddiad ymgynghori yng Nghaerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful, Conwy a Llandrindod

Bwriad yr ymgynghoriad oedd cael sylwadau ar gynnig Llywodraeth Cymru i gychwyn ar Ran 1, Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Roedd yn gofyn pa gyrff cyhoeddus a ddylai ddod o dan y ddyletswydd a sut y byddai'r ddyletswydd cael ei darparu.

Cafodd yr ymgynghoriad ei ddosbarthu'n electronig, trwy'r cyfryngau cymdeithasol a hefyd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cynhaliwyd digwyddiadau cyswllt allanol yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda rhanddeiliaid, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector.

Cafodd Llywodraeth Cymru cyfanswm o 98 o ymatebion i'r ymgynghoriad:

- Ymatebodd 63 o sefydliadau trwy gwblhau'r ffurflen ymateb;
- Daeth 35 o ymatebion trwy'r porth ar lein, gyda 14 wedi'u cwblhau a 21 wedi'u cwblhau'n rhannol.

Yn ogystal, cymerwyd nodiadau ym mhob un o'r digwyddiadau rhanddeiliaid ledled Cymru lle'r oedd 140 o unigolion yn bresennol, a chafodd y nodiadau eu bwydo i'r dadansoddiad hefyd.

Mae rhestr lawn o ymatebwyr a roddodd gymeradwyaeth yn yr Atodiad.

Cwestiwn 1 – Y termau allweddol

Y termau allweddol a ddiffinnir yn yr adran hon yw:

- **Penderfyniadau o natur strategol**
- **Anghydraddoldebau canlyniadau**
- **Anfantais economaidd-gymdeithasol**

C1A - Ydych chi'n cytuno fod y diffiniadau uchod o'r termau hyn yn rhesymol, yn hawdd eu deall ac y dylen nhw gael eu cynnwys yn y canllawiau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno maes o law ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol?

Dengys yr atebion i Gwestiwn 1a fod 79% yn cytuno gyda'r uchod a 21% yn anghytuno.



Mae yna thema sy'n codi'n gyson sy'n awgrymu y dylai'r termau allweddol gael eu diffinio'n gliriach a chydag enghreifftiau i ddangos hynny, nid yn unig i'w gwneud yn haws eu deall i rai sydd yn y gwasanaethau cyhoeddus, ond er mwyn i'r cyhoedd yn gyffredinol hefyd allu eu deall yn well. Dylai'r derminoleg hefyd fod yn berthnasol ac yn gynhwysol.

Roedd teimlad ymhlith yr ymatebwyr fod y diffiniadau'n rhy benagored ac y gallai hynny gynyddu'r perygl y byddai partïon yn cyflwyno heriau cyfreithiol i geisio defnyddio'r ddeddfwriaeth hon i wrthdroi penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

Mae sylwadau ychwanegol ynghylch y termau allweddol wedi'u cynnwys yn yr atodiad.

C1B – Ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad hwn o 'benderfyniad strategol'? "Penderfyniadau sy'n gosod blaenoriaethau cyffredinol, strategaethau a pholisïau allweddol, targedau, dulliau bras a gwariant ynghylch darparu busnes y sefydliadau."

Dengys yr atebion i Gwestiwn 1b fod 86% yn cytuno gyda'r diffiniad uchod a 14% yn anghytuno.



Anghytuno:

Roedd y rhai oedd yn anghytuno'n dweud fod angen ysgrifennu'r diffiniad yn gliriach, fod y diffiniad yn "anghywir yn gydsyniadol" a bod angen egluro pam mai'r penderfyniadau strategol sy'n cael eu hystyried y rhai pwysicaf.

Cytuno:

Roedd y rhai oedd yn cytuno gyda'r diffiniad hefyd yn ychwanegu y byddai angen rhagor o arweiniad ynghylch ei ystyr, sut mae'n cael ei ddiffinio a beth sy'n cael ei gynnwys ynddo, er mwyn gwneud yn siŵr y bydd cyrff cyhoeddus yn gallu gweithredu'r Ddyletswydd yn llwyddiannus a chyflawni newid positif.

Cytunai'r ymatebwyr hefyd fod y diffiniad hwn yn rhesymol ac yn cyd-fynd yn dda gyda'r ystod eang o gyrff cyhoeddus y mae ar eu cyfer.

Fodd bynnag, roedd awgrymiadau y gallai'i ehangder olygu y gallai gwahanol sefydliadau ei ddehongli'n wahanol.

Gwelliannau a awgrymir:

- Tynhau'r 'blaenoriaethau cyffredinol' i fod yn ddim ond 'blaenoriaeth'.
- Cael gwared ar 'dulliau cyffredinol' gan nad yw'n ychwanegu unrhyw beth.
- Gellid cynnwys cyfeiriad penodol yn datgan y dylai cyrff perthnasol ddefnyddio rhestr enghreifftiol estynedig er mwyn dehongli bwriad y diffiniad yn iawn.
- Newid i gynnwys 'rheoli perthynas gyda chyrff cyhoeddus eraill mae'n eu hariannu.'
- Ystyried ychwanegu '....*dros gyfnod o 12 mis o leiaf*' ar ddiwedd y frawddeg er mwyn dangos beth mae'r ddogfen ymgynghori'n ei ddatgan.
- Defnyddio'r ymadrodd "amcanion" / "canlyniadau'n canolbwyntio ar amcanion" yn hytrach na "thargedau".
- Awgrymu defnyddio 'cyllideb' yn hytrach na 'gwariant'

- Cynnwys yr ymadrodd – “pa benderfyniadau sy’n cael eu cymryd sy’n effeithio ar eu poblogaethau”.
- Gellid ei ymestyn i ddatgan, *‘Mae hynny’n cynnwys penderfyniadau newydd yn ogystal â phenderfyniadau ynghylch newidiadau i ddarparu polisïau a gwasanaethau presennol.’*
- Mae Polisi Allweddol yn awgrymu dogfen fewnol. Mae gweithgareddau allanol yn cael ei cynnwys yn ‘blaenoriaeth / amcan / strategaeth ayb.’
- Ychwanegu ‘penderfynu ar ‘Gynllun Cydraddoldeb Strategol’ ac ‘ychwanegu Amcanion Cydraddoldeb’ at y rhestrau ymgynghorol yn y ddogfen ymgynghori.

C1C – Ydych chi’n cytuno gyda’r dull arfaethedig i helpu diffinio anghydraddoldeb canlyniadau?

Dengys yr atebion i Gwestiwn 1c fod 79% yn cytuno gyda’r diffiniadau uchod a 21% yn anghytuno.



Diffinio anghydraddoldeb

Roedd pryder ymysg rhai o’r ymatebwyr nad yw’r dull arfaethedig yn rhoi digon o bwys ar y cysylltiad rhwng cyfoeth materol ac anghydraddoldeb canlyniadau.

Rhag i wahanol ddehongliadau ymddangos, awgrymir fod Lywodraeth Cymru’n paratoi diffiniad, efallai yn unol â diffiniad y Cenhedloedd Unedig neu un yr Alban.

Awgrymwyd y dylid gofyn i gyrff cyhoeddus ddewis yr anghydraddoldebau pwysicaf yn eu hardal nhw ac y dylid cytuno ar y rhain gyda’r cyrff sy’n gweithredu yn yr un ardaloedd.
O gofio fod yna wahanol broblemau cydraddoldeb mewn gwahanol ardaloedd o Gymru, dylid nodi a defnyddio’r dystiolaeth leol hon, yn hyblyg, yn ogystal â thystiolaeth genedlaethol i gael darlun cywir o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder mai mynegrif trefol yn bennaf yw'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru. Byddai un awdurdod lleol yn *awyddus i gael dull penodol i drafod anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn sir fawr, wledig. Byddai hynny'n cynnwys gallu sefydlu'r mesurau mwyaf perthnasol".*

Awgrymodd sefydliad iechyd proffesiynol y byddai peidio ag ystyried, gyda'i gilydd, anghydraddoldebau megis rhywedd, economaidd-gymdeithasol a hil yn golygu y gallai 'cyrff cyhoeddus fethu â sylweddoli'r cysylltiadau a'r perthynasau sydd rhwng pob un, yn groesdoriadol, ac y gallai hynny arafu'r broses o daclo anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol.

C1D – Ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad hwn o anfantais economaidd-gymdeithasol?

"Byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth wrth gefn, yn arwain at fwy o amddifadedd materol, yn cyfyngu ar allu i gael gwasanaethau a nwyddau sylfaenol. Gall anfantais economaidd-gymdeithasol godi mewn lleoedd ac mewn cymunedau o ddiddordeb, gan arwain at ganlyniadau negyddol pellach megis eithrio cymdeithasol."

Os nad ydych chi'n cytuno â'r diffiniad hwn, allwch chi gynnig un amgen?

Dengys yr atebion i Gwestiwn 1d fod 71% yn cytuno gyda'r diffiniadau uchod a 29% yn anghytuno.



Roedd yna gymysgedd o sylwadau'n tynnu sylw at anfantais economaidd-gymdeithasol o ran unigedd gwledig a sut mae cefndir pobl yn berthnasol i ddiffyg cyfleoedd.

Un o'r pryderon pennaf i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yw'r diffiniad "incwm isel o gymharu â rhai eraill yng Nghymru".

Mae yna gonsensws fod canolbwyntio ar incwm isel / diffyg cyfoeth yn rhan hanfodol o'r diffiniad, fodd bynnag roedd ymatebwyr eisiau eglurhad ynghylch yr ystyr.

Awgrymwyd ychwanegu '*rhaid dewis rhwng agwedd lydan neu gul'* at y diffiniad ac '*Er mwyn gallu dehongli'n haws, rydyn ni o'r farn ei bod yn rhesymol canolbwyntio ar adnoddau materol a bod adlewyrchu unigolion a chymunedau'n agwedd bwysig o hyn'.*

Mae'r ymatebion i'r Smart Survey'n awgrymu tynnu 'Cymru' o'r diffiniad gan fod cyflogau'n is yng Nghymru nag yw cyfartaledd y DU. Maen nhw o'r farn fod y diffiniad yn gosod gormod o bwyslais ar agweddau ariannol yn hytrach nag ar rai cymdeithasol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r diffiniad fynd ymhellach nac arian ac y dylid ystyried amddifadedd cymdeithasol, neu anfantais o ran cyfranogaeth, dyheadau neu gyfleoedd, gydag enghreifftiau'n cael eu rhoi gan ymatebwyr o wledigrwydd, amrywiad daearyddol, iechyd a llesiant ayb.

Gwelliannau a awgrymir

- 'Lle' a 'chymuned fuddiant' – awgrymwyd y byddai 'grwpiau buddiant' yn well disgrifiad na 'chymunedau buddiant'
- "Amddifadedd' ardaloedd"
- "Amddifadedd materol"
- Diffiniad o nwyddau a gwasanaethau sylfaenol – mae yna awgrym y dylid ei newid i 'nwyddau a gwasanaethau sy'n hanfodol er mwyn cymryd rhan mewn bywyd bob dydd, pwy bynnag sy'n eu cyflenwi'
- Diffiniad o anabledd
- 'Gydag ychydig neu ddim cyfoeth wrth gefn'
- Roedd yna awgrym y dylid cynnwys 'anghydraddoldeb dyheadau'
- Newid y canllawiau i gynnwys cyfeiriad penodol at blant wrth ddangos enghreifftiau
- Ei gwneud yn glir fod mynediad at nwyddau a gwasanaethau'n achosi ac yn ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Mwy o eglurder ynghylch sut y gellir mesur yr effaith

Awgrymwyd y byddai geirfa dermau, fel yr un uchod, yn egluro agweddau allweddol ar anfanteision economaidd-gymdeithasol ac y byddai'n fframwaith gyfeirio gyson ar gyfer cymhwyso'r ddyletswydd newydd.

Dywedodd melin drafod '*Byw ar incwm isel o gymharu â rhai eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim o gyfoeth wrth gefn, sy'n cyfyngu ar fynediad at nwyddau a gwasanaethau sy'n hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn bywyd bob dydd, pwy bynnag sy'n eu cyflenwi.'*

A:

"Golyga anfantais economaidd-gymdeithasol fod heb ddigon o incwm neu gyfoeth i gyfarfod â gofynion sylfaenol, megis bwyd, rhent, gwres a chludiant. Fe'i disgrifir yn aml fel tlodi."

Cwestiwn 2 – Y Cyrff Cyhoeddus sy'n cael eu Cynnwys Gan y Ddyletswydd

C2A Yn seiliedig ar y prawf yn adran 2(6) a'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymru rydyn ni o'r farn sy'n cyrraedd y prawf, ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn berthnasol i bob corff a restrir? Cofiwch nodi unrhyw gyrff nad ydyn nhw'n cael eu rhestru rydych chi'n ystyried eu bod yn cyrraedd y prawf uchod ac y dylid eu cynnwys, gan gynnwys unrhyw resymau dros wneud hynny.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84%) eu bod yn cytuno y dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn berthnasol i'r cyrff cyhoeddus yr awgrymir eu rhestru.

Roedd y cyrff oedd yn cael eu hawgrymu y gellid ystyried eu cynnwys yn gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a gafodd eu hawgrymu saith gwaith gan ymatebwyr drwy e-bost, a Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, a gafodd eu hawgrymu ddwywaith.

Y rhesymeg dros gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus oedd bod ganddyn nhw gyfrifoldeb strategol dros baratoi asesiadau, amcanion a chynlluniau, gan gynnwys datblygu'r Cynlluniau Llesiant ac i ystyried dangosyddion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal â hyn, thema gref a chyson arall a nodwyd oedd cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a gafodd ei grybwyll bum gwaith i gyd, gyda llawer yn nodi eu bod yn cael eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Er y cydnabyddir fod yr heddluoedd wedi'u heithrio o'r rhestr oherwydd nad yw plismona wedi'i ddatganoli i Gymru, awgrymwyd, os na fyddai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru yn cael eu hychwanegu, ei bod yn hanfodol "*y bydd disgwyl iddyn nhw sefydlu'n naturiol eu dyletswydd economaidd-gymdeithasol ymhellach yn eu penderfyniadau strategol".*

Roedd y syniad o "anrhydeddu ysbryd y ddyletswydd" yn amlwg ymysg yr ymatebwyr gyda llawer yn awgrymu y dylai'r cyrff nad oedd yn bodloni'r prawf i gael eu cynnwys "*sefydlu ystyried anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol yn eu gwaith".*

Awgrymwyd y gallai fod yn "*ddoeth pwysleisio yn y canllawiau dros dro fod sefydliadau heblaw'r rhai sy'n cael eu rhestru'n cael eu hannog i ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel arfer gorau".*

Roedd awgrymiadau eraill a dderbyniwyd drwy ebost ar gyfer cynnwys cyrff cyhoeddus ar y rhestr, ac y byddai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn berthnasol iddyn nhw, yn enwi cyrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n cael eu rhestru o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (er enghraifft, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru), Comisiynwyr, darparwyr Addysg Bellach a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae'r rhestr gyfan o awgrymiadau yn yr Atodiad.

C2B Yn seiliedig ar restr o gyrff cyhoeddus cymwys Cymru, nodiwch unrhyw rai o'r cyrff a restrir rydych chi'n ystyried nad ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw, ac eglurwch pam y dylid eithrio'r awdurdodau penodol hynny.

Cytunai pob ymatebydd nad oedd yna unrhyw gorff cyhoeddus ar y rhestr na ddylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn berthnasol iddo.

Mae Adran 3 yn dangos y syniadau cychwynol am y mathau o gamau y gallai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i ddangos eu bod yn cyfarfod â'r ddyletswydd.

C3A Ydych chi o'r farn y byddai cyflwyno canllawiau 'dros dro' ar 1 Ebrill 2020 ac yna'r canllawiau 'terfynol' ar 1 Ebrill 2022 yn rhoi digon o amser i'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol ystyried goblygiadau'r ddyletswydd a'i sefydlu'n llawn yn eu hymarferion gwaith?

Roedd awdurdodau lleol yn mynegi pryder ynghylch gweithredu'r ddyletswydd o 1 Ebrill 2020 gan eu bod o'r farn bod amser yn brin ar gyfer cynllunio a pharatoi ar ei gyfer.

"Rydyn ni'n amcangyfrif y bydd angen cyfnod o chwe i 12 mis i sicrhau y bydd y systemau mewnol wedi'u sefydlu a bod hyfforddiant wedi'i ddarparu". Rydyn ni'n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r 12 mis nesaf i ddatblygu canllawiau terfynol gyda rhanddeiliaid cyn dechrau ar ddeddfwriaeth".

Er gwaethaf addewid y cymerir ystyriaeth 'feddalach' yn ystod y cyfnod dros dro, roedd y rhai a fynegodd bryderon yn amau a fyddai'r cyhoedd, neu'r llysoedd, yn gallu neu'n dymuno cymryd agwedd 'feddalach'. Mae yna bryderon, unwaith y bydd y ddyletswydd ar y llyfrau statud, y bydd hynny'n risg cyfreithiol i'r sefydliadau, gan gynnwys o'r diwrnod cyntaf, pan ellid dwyn achos adolygiad barnwrol.

Mae'r sefydliadau hyn wedi gofyn am gyfnod 'arweiniol' hirach a fyddai'n rhoi digon o amser i bob un o'r cyrff cyhoeddus ar y rhestr i wneud y newidiadau angenrheidiol i'w prosesau mewnol *cyn* y daw'r ddyletswydd i rym. Un awgrym yw ailystyried y dyddiad cychwyn, er enghraifft 1 Ebrill 2021 yn lle 1 Ebrill 2020.

C3B Pa bethau, neu gamau, eraill allai cyrff cyhoeddus eu cymryd i ddangos eu bod yn cyfarfod â'r ddyletswydd? A oes gennych chi unrhyw sylwadau erall ar y camau a ddangosir yn Adran 3?

Er bod y mwyafrif yn cytuno fod y camau a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad yn dangos agwedd resymegol a chymesur sy'n cyd-fynd ag ymarferion presennol ynghylch cymryd penderfyniadau, roedd rhai pryderon yn cael eu hawgrymu a chynigion yn cael eu cyflwyno.

Mynegodd dau sefydliad yn y trydydd sector bryderon ynghylch a fyddai gan gyrff cyhoeddus ddigon o '*amser, adnoddau ac arbenigedd i weithredu'n wirioneddol'* y ddyletswydd gan ofni na fyddai hyn '*ond ymarfer ticio blychau'* os na fyddai'r problemau hyn yn derbyn sylw.

Awgrymodd un arall y dylid ychwanegu pumed cam ynghylch 'trosolwg ac atebolrwydd' gan ddweud: *"Nid yw monitro effeithiau 'dros y tymor hwy', er yn angenrheidiol, yn ddigon ar ei ben ei hunan i arwain at newid oni bai bod yna drosolwg, atebolrwydd ac yna, newidiadau mewn ymarfer."*

Amlinellodd sawl corff cyhoeddus fod angen dull cyson o gasglu tystiolaeth ynghylch asesu effeithiau. Nodwyd fod asesiadau effeithiau cydraddoldeb yn cael eu gwneud yn wahanol ar hyn o bryd gan wahanol gyrff cyhoeddus. O ganlyniad, argymhellwyd y dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddefnyddio templed genedlaethol a safonol o'r cychwyn er mwyn ceisio datrys hyn.

Awgrymwyd hefyd y gellid dysgu gwersi o'r adroddiad *Just Fair - Tackling socio-economic inequalities locally* – (2018) sy'n amlinellu nifer o feini prawf a allai fod o ddefnydd wrth asesu cynnydd yng Nghymru.

Awgrym arall yw y gallai'r canllawiau dros dro gyfeirio at Egwyddorion Brown a Gunning. Gellir defnyddio Egwyddorion Brown mewn llys i sefydlu a yw corff cyhoeddus wedi dangos '*sylw dyledus*' i ddeddfwriaeth. Mae Egwyddorion Gunning yn dangos y disgwyliadau cyfreithiol o beth yw ymgynghoriad priodol gyda phwyslais ar '*degwch'*.

C3C Allwch chi gynnig unrhyw awgrymiadau sut y gallai cyrff cyhoeddus ddadansoddi ac adrodd yn well er mwyn talu gwell sylw i anghyfartaleddau ynghylch anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cynigiwyd nifer o awgrymiadau gan amrywiaeth o sefydliadau gyda themâu'n ymddangos ynghylch cadw at fframweithiau presennol, ymgysylltu, data a dull 'Cymru Gyfan'.

Amlygwyd yn aml y gallai fod yn ddefnyddiol cadw at y fframweithiau presennol wrth adrodd yn ôl. Awgrymodd amryw y dylid cysylltu gyda'r nod cydraddoldeb yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chymryd agwedd tymor hir wrth ystyried effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ym mlynyddoedd cynharaf bywyd.

Mynegodd un awdurdod lleol bryder y byddai gofyn iddyn nhw gynnal cymaint o asesiadau. Mae'n dweud: *"Mae gennym bryderon ynghylch faint o asesiadau y bydd gofyn i ni eu gwneud ynghylch unrhyw un penderfyniad. Bydd hyn yn ychwanegu lefel arall o asesu pan ddylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, os yw'n cael ei gweithredu'n iawn, fod yn berthnasol i bopeth y mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ceisio ei wneud."*

Argymhellwyd y dylai cyrff cyhoeddus gael trywydd archwilio i ddangos eu bod yn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd os cyfyd her a'u bod yn monitro'r gwahaniaeth y mae'r ddyletswydd wedi'i wneud i benderfyniadau strategol yn eu hadroddiad corfforaethol blynyddol.

Awgrymodd un neu ddau y byddai gwneud dadansoddi ac adrodd yn fandadol yn helpu nid yn unig i atgyfnerthu pwysigrwydd y ddyletswydd a'r gwerth a roddir arno ond hefyd yn sicrhau ansawdd yr wybodaeth a ddefnyddir ac sy'n cael ei ystyried wrth gymryd penderfyniadau strategol.

Awgrymodd sawl corff cyhoeddus y dylid cael dull Cymru Gyfan o ddadansoddi / adrodd yn ôl ar gyfer pob corff cyhoeddus neu mewn sectorau penodol e.e. iechyd, awdurdodau lleol, gan y byddai hynny'n helpu i gadarnhau pwysigrwydd y ddyletswydd hon.

Roedd teimlad y gellid casglu gwybodaeth yn well ar gyfer adrodd yn ôl a bod angen data ansoddol a meintiol er mwyn mynd i'r afael â gwreiddiau gwirioneddol anfantais economaidd-gymdeithasol.
Awgrymwyd y gellid cael canolfan ddata Cymru Gyfan i gael gwell cysondeb, gydag un ymatebwr yn datgan: "Byddai'n ddefnyddiol pe byddai ffynonellau data perthnasol yn cael eu nodi, eu cynnal a'u cadw'n ganolog er mwyn gallu cael gwybodaeth gyson ledled y sector cyhoeddus."

Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid cael data meincnodi penodol ar gyfer Cymru er mwyn i'r awdurdodau cyhoeddus allu asesu pa mor dda y maen nhw'n ei wneud yn erbyn canlyniadau; y dylai Llywodraeth Cymru gadw storfa o dystiolaeth, rhannu arferion gorau'n rheolaidd, gwybodaeth ynghylch yr hyn y mae sefydliadau'n ei wneud yn dda a hefyd gynnal gwerthusiad / astudiaeth benodol i ystyried effaith y ddyletswydd ar y boblogaeth.

Cytunodd nifer ei bod yn hanfodol ymgynghori'n ystyrlon ac yn barhaus gyda phobl sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.

Dywedwyd: *"Mae'n rhaid cysylltu'n barhaus gyda rhanddeiliaid / y cyhoedd er mwyn sicrhau fod gwybodaeth leol ynghylch profiadau bywyd unigolion a grwpiau'n cael eu hystyried yn ogystal â dadansoddi data caled er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau.*

Fodd bynnag, nodwyd, er mwyn cysylltu'n ystyrlon "*bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus gael yr adnoddau, y sgiliau, a'r amser i wneud y gwaith".*

C3D Allwch chi gynnig enghreifftiau o sut y mae awdurdodau cyhoeddus ac eraill wedi gwneud y defnydd gorau o arbenigedd pobl gyda phrofiad uniongyrchol o dlodi. Er enghraifft, sut mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r pum ffordd o weithio sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau eu dadansoddiad?

Roedd yna rai enghreifftiau o fentrau wedi'u cyd-ddylunio / cyd-gynhyrchu gan rai â phrofiad uniongyrchol o dlodi a staff y corff cyhoeddus.

Amlygwyd prosiect A Menu for Change gan **Oxfam** yn yr Alban, sy'n dod â phobl gyda phrofiad o dlodi at ei gilydd gyda darparwyr gwasanaethau llinell flaen i nodi problemau a gweithredu i adolygu polisi ac ymarfer fel rhan o gynnal cylch dysgu.

Cyfeiriwyd hefyd at brosiect Take Notice gan **Shelter Cymru** gan nodi sut y mae'n dangos profiad bywyd pobl drwy ymchwil cymheiriaid.

C3E Dydyn ni ddim o'r farn y byddai creu fframwaith fesur newydd i fonitro effaith y ddyletswydd yn beth synhwyrol. Ydych chi'n cytuno â hynny? (Cofiwch nodi eich rhesymau dros eich ateb). Pa offer a fframweithiau monitro allai cyrff cyhoeddus eu defnyddio i ganfod sut y mae'r ddyletswydd yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau yn y tymor hir?

Er bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cytuno y dylid defnyddio'r fframweithiau presennol i fonitro effeithiau'r ddyletswydd, roedd sawl sector yn y drydedd sector yn mynegi pryder.

Roedd amheuaeth a yw'r offer presennol yn canfod hyd a lled anfantais economaidd-gymdeithasol yn llawn, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar dlodi neu amddifadedd.

Dywedodd un elusen: "Nid yw'r fframwaith presennol ar gyfer mesur a thalu sylw i dlodi yng Nghymru yn darparu data rhyngadrannol mewn ffordd sy'n arwain at ddeall yn fanwl anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru."

Mynegwyd siomedigaeth hefyd yn yr adran hon gan y drydedd sector na fydd yna ddyletswydd adrodd yn ôl ar y cyrff cyhoeddus perthnasol ac nad yw'n ymddangos fod yna drefn ar gyfer monitro cydymffurfiad. Meddai cynrychiolydd o un sefydliad: *"Nid yw'n glir i ni sut y bydd y cyrff cyhoeddus perthnasol yn gallu dangos eu bod wedi cyflenwi eu dyletswydd wrth gymryd penderfyniadau strategol, a dim ond canolbwyntio y mae'r adroddiad ar 'annog sefydliadu i adrodd a chyfathrebu' sut y maen nhw wedi cyflawni'r ddyletswydd drwy ddulliau adrodd cyfun. Dydyn ni ddim o'r farn fod hyn yn ddigon ar gyfer tryloywder na chraffu ac fe fydden ni'n awgrymu sefydlu trefniadau monitro a bod disgwyl i gyff cyhoeddus baratoi adroddiad cydymffurfio."*

C3F Ar wahân i ganllawiau statudol, nodwch unrhyw gefnogaeth arall y bydd cyrff cyhoeddus eu hangen i'w helpu i ddeall a / neu gyflawni eu dyletswydd e.e. hyfforddiant / offer ar lein ayb. A oes yna rai agweddau penodol o helpu corff cyhoeddus i gyflawni ei ddyletswydd y dylid canolbwyntio mwy arno?

Nododd sawl corff y sector cyhoeddus ei bod yn 'hanfodol' cael 'hyfforddiant 'ymarferol, perthnasol a gweithredol', gweithdai, offer ar lein a phecynnau cymorth.

Awgrymwyd y dylai'r hyfforddiant gynnwys egluro beth yw anfantais economaidd-gymdeithasol yn ogystal â sut y dylid gweithredu, dehongli a sefydlu'r ddyletswydd yn gywir ac yn effeithiol.

Roedd rhai o'r farn y dylai hyfforddiant fod yn orfodol i uwch reolwyr, aelodau etholedig a'r rhai sy'n cymryd penderfyniadau strategol, ac eraill yn teimlo y dylid cynnwys yn yr hyfforddiant rai â dyletswyddau Caffael a Chynllunio ac adrannau eraill yn ôl y gofyn "*er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gyflawni'r ddyletswydd a'r gwaith y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud."*

Awgrymwyd hefyd y byddai pecynnau cymorth gydag enghreifftiau o dempledi, asesiadau ac adroddiadau ar benderfyniadau hefyd yn ddefnyddiol.

Awgrymodd sawl corff y bydd y ddyletswydd yn effeithio arno y dylid rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus yn yr un ardal (iechyd, yr heddlu, awdurdodau lleol) i rannu dysgu ac arferion gorau pan fydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ei gyflwyno a'i sefydlu'n ymarferol.

Hefyd, thema gyffredin ymysg yr ymatebwyr oedd y byddai cyrff cyhoeddus angen cefnogaeth a chanllawiau parhaus i allu ymgynghori a chyd-gynhyrchu'n ystyrlon gyda phobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Roedd llawer o'r elusennau a oedd yn ateb y cwestiwn hwn hefyd o'r farn y dylid codi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ymysg y cyhoedd yn gyffredinol er mwyn iddyn nhw ddod i ddeall beth mae'n ei olygu iddyn nhw.

Darparu data

Awgrymodd ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru osod allan y data perthnasol er mwyn i bob gwasanaeth cyhoeddus fod yn edrych ar yr un data. Dylid cynnwys y diagram sydd yn dangos enghreifftiau tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol (a oedd yn cael eu defnyddio yn sleidiau'r gweithdai) yn benodol yn y canllawiau.

Mae adran 4 yn archwilio'r cysylltiadau rhwng y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a'r dyletswyddau eraill y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cyflawni.

C4A Beth allai Llywodraeth Cymru a hefyd y cyrff cyhoeddus perthnasol eu hunain ei wneud i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng y gwahanol ddyletswyddau'n cael eu rheoli'n effeithiol mewn sefydliadau?

Cytunir y dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ychwanegu gwerth at y dyletswyddau presennol a'r rhai a gynllunnir ac y dylai pob un atgyfnerthu'i gilydd ond heb greu baich a chymhlethdod gweinyddol diangen.

Roedd cyd-gynhyrchu'n thema amlwg mewn sawl ymateb, gydag ymatebwyr yn awgrymu mai dyma sydd wrth galon y ddyletswydd. Mae sefydliadau wedi galw am fwy o gydweithio, yn enwedig rhwng Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus perthnasol a sefydliadau'r trydydd sector. Nodwyd hefyd y dylid cryfhau cyd-gynhyrchu drwy annog cyfraniad cymunedol bywiog.

Galwodd sawl ymatebydd am arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru ac am alinio'r gwahanol ddyletswyddau er mwyn lleihau cymhlethdod a dyblygu ac i gefnogi dwyn cydraddoldeb yn effeithiol i'r brif ffrwd.

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru baratoi canllawiau ac enghreifftiau ar gyfer alinio'r gwahanol ddyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys egluro sut y dylai cyrff ymdrin â'r heriau o gyflawni'r gwahanol ddyletswyddau yr un pryd yn ymarferol, ac egluro sut y dylai cyrff ddefnyddio adnoddau orau i gyfuno ystyried y Ddyletswydd newydd yr un pryd ag ymarferion presennol, allanol.

Roedd sawl un yn galw am asesiadau integredig sy'n cynnwys casglu gofynion y gwahanol ddyletswyddau er mwyn sicrhau fod pob ffactor yn cael statws cyfartal yn y broses o benderfynu. Fodd bynnag, ychwanegwyd ei bod yn hanfodol na fyddai hyn yn annog agwedd 'ticio blychau' neu 'docenistiaeth' at y dyletswyddau ac y dylai pob un gael ei ystyried yn wirioneddol.

Alinio â'r mecanweithiau presennol

Un thema a ddaeth i'r amlwg oedd y dylid alinio adroddiadau ar anghyfartaleddau canlyniadau gyda'r mecanweithiau adrodd yn ôl presennol.

Awgrymwyd: *“Cefnogi defnyddio’r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol presennol sy’n mapio i ‘Gymru fwy Cyfartal’.*

Mae yna gefnogaeth hefyd i gysylltu’r ddyletswydd â dangosyddion a mesurau presennol Cymru. Fodd bynnag, mae yna rai pryderon ynghylch cysylltu'r dull hwn gyda’r Mynegrif Amddifadedd Cymdeithasol ar Gyfer Cymru sydd, ei hunan, yn ‘fesur amherffaith’.
Awgrymodd awdurdod lleol mai “*dangosyddion llesiant yw’r rhain ac nad ydyn nhw o angenrheidrwydd yn ganlyniadau anfantais economaidd-gymdeithasol.”*

Dywedodd ymatebwyr hefyd y gallai peidio â datblygu fframwaith fesur newydd ar gyfer y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol greu fwy fyth o ddryswch.

Mae awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Comisiynydd i oruchwylio'r ddyletswydd, gweithio gydag eraill megis Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau cydymffurfiad.
- Gweithgor i gyfarfod i rannu ymarfer gorau.
- Adroddiad (byr), blynyddol, gan bob corff cyhoeddus yn cynnwys manylion gan unrhyw sefydliad sy'n derbyn arian i ddarparu gwasanaethau i'r cyrff cyhoeddus hyn.
- Llwyfan i rannu profiadau ac i ofyn cwestiynau.
- Canllawiau i amlinellu’r berthynas rhwng y dyletswyddau.
- Sicrhau fod cyrff archwilio / rheoleiddio yn cynnwys yr holl ddyletswyddau.
- Darparu porth Cymru Gyfan ar gyfer data.
- Llywodraeth Cymru i ddatblygu casgliad o wybodaeth o enghreifftiau arferion gorau.

C4B A fyddech cystal â chyflwyno unrhyw enghreifftiau rydych wedi eu gweld neu eu gweithredu o arferion gorau drwy gydweithio ynghylch problemau fel, ond nid yn gyfyngedig i, dlodi, cydraddoldeb a hawliau dynol?

Mae enghreifftiau a awgrymir yn cynnwys:

- Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), Swyddfa Buddsoddi ar gyfer Iechyd a Datblygu Ewrop, Menter Adroddiad Statws Cydraddoldeb Iechyd (HESRi) ac Adroddiad Statws Cydraddoldeb Iechyd (HESR) a’r Fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Dull Llywodraeth yr Alban a amlinellir yn *A Fairer Scotland*
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd Cyngor Bro Morgannwg
- Proses Asesiad Integredig Effaith Cydraddoldeb Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn
- Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.
- Prosiect Cynnal Y Cardi http://www.cynnalycardi.org.uk/english/
- Mae nifer o awdurdodau lleol wedi cyfeirio at eu hasesiadau effaith integredig sy’n cynnwys ystod o ofynion deddfwriaethol.
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol http://eqhria.scottishhumanrights.com/ / Astudiaethau achos o Newcastle,

Oldam, Efrog ac eraill sydd wedi'u dyfynnu yn Just Fair (2018) *Tackling socio-economic inequalities locally: Good practices in the implementation of the socio-economic duty by local authorities in England*

- Ymgynghoriad ar y cyd / gwaith ymgysylltu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac eraill, am ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol
- Gogledd Cymru Well Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cwestiwn 5 – Dogfennau Cefnogi

C5A – Ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad o effeithiau tebygol y Ddyletswydd?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (85%) yn cytuno gydag asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau tebygol y Ddyletswydd, gan ddod i'r casgliad fod y gost (yn gymdeithasol ac yn ariannol) o wneud dim yn enfawr.

Fodd bynnag, roedd yr awdurdodau lleol yn cytuno fod yr effeithiau ar awdurdodau yn debygol o fod yn cael eu tanamcangyfrif, gan deimlo y dylid addasu'r amserlenni er mwyn caniatáu rhagor o amser ar gyfer paratoi, ac nad yw'r amcangyfrif y bydd yn cymryd un unigolyn o gorff cyhoeddus un awr y flwyddyn i ymgymryd â'r dasg *yn realistig nac yn rhoi'r neges gywir ynghylch arwyddocâd y ddyletswydd hon'.*

Dywedodd un awdurdod lleol *"Mae'r costau gweithredu'n cael eu tanamcangyfrif yn enfawr yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'n asesu y bydd yn cymryd un hanner diwrnod i uwch swyddog ddygymod â'r broses polisi. Bydd sicrhau fod y data ar gael ar draws yr awdurdod, newid y broses a'r weithdrefn a hyfforddi'r holl staff ac aelodau perthnasol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'n faich arwyddocaol. Yna bydd yn cymryd amser arwyddocaol i uwch swyddog (un sy'n cymryd penderfyniadau / ysgrifennu adroddiadau) asesu a yw'r penderfyniadau ynghylch asesu effaith yn gywir. Ni ystyrir ychwaith, amser aelodau etholedig wrth graffu penderfyniadau."*

Er gwaethaf y teimlad fod yr amcangyfrifon yn 'afrealistig', roedd yr ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd amcangyfrif pa mor hir y byddai hyn yn ei gymryd, gan ddatgan *'mae'n anodd dweud yn iawn faint fydd yn ei gymryd i awdurdod ddod yn gyfarwydd â'r ddyletswydd / canllawiau ac addasu unrhyw bolisïau / prosesau ar gyfer hynny.'*

Roedd cwpl o ymatebwyr wedi datgan eu bod yn cytuno i 'ryw raddau' ond yn teimlo fod y cynnig yn ymddangos i fod yn fwy ar gyfer *"lliniaru canlyniadau tlodi yn hytrach na thalu sylw i achosion gwaelodol tlodi ei hunan".*

Wrth ymateb, tynnodd nifer sylw y dylid ystyried y costau ychwanegol fydd yn codi wrth ddarparu'r ddyletswydd newydd hon. Mae'r ffigyrau a ddefnyddiwyd yn rhagdybio y bydd y costau'r un fath i bob sefydliad . Fodd bynnag, bydd effaith y costau hynny'n wahanol i bob awdurdod / sefydliad yn seiliedig ar faint a lleoliad.

Datganodd un awdurdod lleol: *"Ni wnaed unrhyw gyfeiriad at yr effaith ariannol i bob sefydliad sydd wedi'i gynnwys wrth gyfarfod â'r ddyletswydd hon. Ymddengys mai dim ond amser staff Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu canllawiau, ymgynghori, gweithredu*

ac adrodd yn ôl mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ei ystyried. Nid yw'n cyfeirio at gostau pob corff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gweithredu ac hyfforddi miloedd o staff.

Cytunai bwrdd iechyd â hyn, gan ddweud: *"Mae'r costau y bydd yn rhaid i sefydliadau eu hysgwyddo, er enghraifft i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth trefniadol, darparu hyfforddiant a chraffu parhaus ar draws ardal ddaearyddol eang i fyrddau iechyd a gweithlu o 18,000, gryn dipyn yn fwy na'r hyn sy'n cael ei amcangyfrif gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.*

C5B – Oes gennych chi unrhyw ddata ychwanegol / amgen a allai fod o gymorth wrth asesu'n derfynol y costau a'r buddion sydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Ar y pryd, doedd gan yr un o'r ymatebwyr unrhyw ddata ychwanegol / amgen a fyddai'n wybodaeth ychwanegol wrth asesu'r costau, sy'n awgrymu mai dim ond pan fydd y canllawiau dros dro ar gael y bydd yn bosibl penderfynu ar ffigwr mwy cywir.

Cwestiwn 6 – Y Gymraeg

Fe hoffem gael eich sylwadau ar pa effaith y bydd dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl defnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Pa effaith ydych chi'n feddwl fyddai hynny'n ei gael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Teimlai llawer o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n yn gallu cynnig sylwadau ar effaith posibl y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar y Gymraeg a'i defnydd.

Mae angen tystiolaeth yn cysylltu amddifadedd a mynediad at y Gymraeg

Un thema a oedd yn codi drosodd a throsodd oedd y cysylltiad rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol a mynediad at y Gymraeg.

O'r 24 sefydliad a ymatebodd i Gwestiwn Chwech yr ymgynghoriad, roedd 6 o'r farn nad oedden nhw'n gallu cynnig ymateb trwyadl oherwydd bod diffyg tystiolaeth yn cysylltu amddifadedd economaidd-gymdeithasol a mynediad at y Gymraeg.

Effaith bositif

O'r 24 a ymatebodd trwy e-bost, roedd 5 o'r farn y byddai'r ddyletswydd yn bositif, gydag un o'r rhain eisiau rhagor o wybodaeth am y cysylltiad rhwng iaith a buddsoddiad iechyd.

Awgrymodd tri ymatebwr trwy e-bost y byddai'n annhebyg o gael effaith negyddol ar y Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg. Awgrymwyd y gallai hynny fod oherwydd bod eisoes ddarpariaeth i gyfathrebu'n ddwyieithog yn cael ei gweithredu trwy Safonau'r Gymraeg ledled Cymru.

Dywedodd corff awdurdod lleol *"wrth ymgysylltu a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y byddwn yn ceisio darparu hyn yn unol â Safonau'r Gymraeg a, chyn belled â phosibl, byddwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ymgysylltu drwy eu dewis iaith."*

Teimlai un oedd yn ymateb i'r arolwg ar lein hefyd y gallai hyn godi statws y Gymraeg a helpu i'w gwneud yn gyfartal â'r Saesneg. Byddai hynny oherwydd byddai'n rhaid i gyrff cyhoeddus "d*alu sylw i unrhyw anfantais ieithyddol a allai godi i siaradwyr Cymraeg mewn cylchoedd cymdeithasol ac economaidd".*

Roedd tri ymatebwr trwy e-bost yn cytuno y gallai hyn fod o fantais i siaradwyr Cymraeg yn benodol, gyda bwrdd iechyd yn datgan y gallai mynediad at wasanaethau Cymraeg *"wellau eu hiechyd, er enghraifft wrth ddeall eu dewisiadau o driniaeth".*

O ran yr effaith ar siaradwyr Cymraeg presennol, awgrymodd awdurdod lleol y dylid ystyried y Gymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn eu cyd-destun, gan fod pobl yn gallu teimlo dan anfantais neu'n ynysig yn gymdeithasol mewn ardaloedd trefol yn ogystal â rhai gwledig.

Roedd yn datgan: *"Mae'r ardaloedd gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn aml yn rhai mwy gwledig ac ynysig, sy'n gallu bod o dan fwy o anfantais cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol. Hefyd, mewn ardaloedd poblog iawn gyda chanran isel o siaradwyr Cymraeg, mae cymunedau neu unigolion sy'n siarad Cymraeg yn gallu teimlo o dan fwy o anfantais cymdeithasol ac yn fwy ynysig o fewn eu cymunedau."*

Mae'n rhaid diogelu hefyd yr ardaloedd gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg a ble mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'r gymuned, yn ôl awdurdod lleol.

Cwestiwn 7 – Y Gymraeg

Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynnig i ddechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol gael eu ffurfio neu ei newid er mwyn effeithio'n bositif, neu gynyddu'r effeithiau positif, ar gyfleoedd i bobl defnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd asesiad o anghenion lleol ac alinio gyda Safonau'r Gymraeg ymysg awgrymiadau ymatebwyr trwy e-bost er mwyn i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol gael effaith fuddiol ar y Gymraeg.

Roedd gan nifer o sefydliadau a ymatebodd syniadau sut y gallai'r cynnig i ddechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol gael ei ffurfio neu'i newid er mwyn bod yn fwy cynhwysfawr o'r Gymraeg neu wella'r darpariaethau ar ei chyfer.

Roedd y rhain yn cynnwys asesiad o angen lleol, edrych yn fanwl ar gymunedau sy'n dioddef amddifadedd cymdeithasol a sut y byddai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw ac ar y Gymraeg.

Cwestiwn 8 – Crynodeb o ymatebion

Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i gyflwyno eich sylwadau:

Grwpiau nodweddion gwarchodedig

Er bod yr ymgynghoriad yn cynnwys ystyriaeth bwysig o Ddeddf yr Iaith Gymraeg, amlygwyd nad yw'n annog yr effeithiau a gâi dechrau ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ei gael ar gydraddoldeb a grwpiau nodweddion gwarchodedig e.e. pobl gydag anabledd (fel y'i diffinnir yn yr asesiad integredig ynghlwm). Mae'r sefydliad yn datgan: *"Mae'r berthynas hon yn sylfaenol ac fe fyddem yn argymell y dylid datgan hynny'n glir yn y canllawiau ategol."* Dyfynnodd un sefydliad aelodaeth hefyd ymchwil academaidd Sir Michael Marmot, sy'n awgrymu mai'r *"strategaethau i'w blaenoriaethu yw'r rhai sydd ag agwedd genedlaethol o ran sgôp ond sy'n cael cymaint o adnoddau a darpariaeth ag y mae'r gymdeithas ar lefel leol eu hangen."*

Penderfyniadau cynllunio

Holodd awdurdod lleol ynglŷn â'r ddyletswydd mewn perthynas â chynllunio, gan ddweud: *"O safbwynt cynllunio defnydd tir, byddai angen i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol arfaethedig fod yn ystyriaeth allweddol wrth baratoi cynllun datblygu lleol a gallai hynny gael effaith bell-gyrhaeddol ar y system cynllunio yn ei chyfanrwydd."* Â ymlaen i ddweud, er eu bod yn cefnogi'r ddyletswydd, bod rhai agweddau'n dal yn aneglur, ac ychwanegu *"Mae'r diffyg eglurder hyn yn bryder mawr i'r broses cynllunio, yn enwedig wrth baratoi cynllun."* Mae'r awdurdod lleol wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu *"canllaw ychwanegol penodol ar gyfer cyynllunio, a fyddai o gymorth i ddiffinio'n glir 'byst y gôl' ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol i'w mabwysiadu neu i'w hadolygu a helpu rhag i adolygiadau barnwrol diangen godi."*

Cynnwys y sector preifat

"Efallai nad oes yna unrhyw reswm pan na allai Llywodraeth Cymru hefyd annog sefydliadau'r sector preifat i integreiddio'r ddyletswydd - gan ddangos / dyfynnu'r manteision iddyn nhw o wneud hynny. Mae ganddyn nhw ran hynod bwysig i'w chwarae mewn lliniaru anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Dylid ystyried hyn ymhellach ac ystyried hefyd strategaeth gyfathrebu."

Meysydd heb eu datganoli

Awgrymodd un ymatebydd y gallai Llywodraeth Cymru geisio cael mwy o reolaeth dros feysydd heb eu datganoli sy'n effeithio'n arwyddocaol ar anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, mae adolygu lles yn enghraifft amlwg, er mwyn
gallu cael mwy o reolaeth ac ymyrryd ymhellach i liniaru anghydraddoldeb yng Nghymru.

Cysylltiadau â'r economi

Yn olaf, yn yr adran hon, nododd un ymatebydd nad oes gyfeiriad at led a'r cysylltiad gyda chynlluniau datblygu seilwaith / datblygu economaidd cenedlaethol a'r

ddyletswydd economaidd-gymdeithasol e.e. y Fframwaith Ddatblygu Genedlaethol neu gynlluniau Dinasoedd a rhanbarthau. Hefyd, yr economi sylfaenol yng Nghymru, sy'n chwarae rhan gynyddol bwysig mewn lleihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb ehangach.

Atodiad – Cymru Fwy Cyfartal: Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Sylwadau ychwanegol o gwestiwn 1a
Trosolwg o sylwadau ynghylch y termau allweddol

Penderfyniadau o natur strategol

- Gallai'r diffiniad gynnwys 'gweithgareddau' a 'chanlyniadau' yn y diffiniad.

- Mae angen eglurhad pellach ynghylch rhai termau penodol, er enghraifft, gallai sefydliadau gwahanol ddiffinio strategol yn wahanol ac mae rhai sefydliadau'n dehongli polisi fel penderfyniad gweithredol ac nid strategol.

- Awgrymwyd y dylid cael canllawiau i ddangos pa benderfyniadau sy'n dod o dan y ddyletswydd, y dystiolaeth y dylid ei hystyried, cynnig enghreifftiau i ddangos sut y gallai'r termau ymddangos a sut y gallai dyletswydd cyrff cyhoeddus i ystyried hyn weithio yn ymarferol. Ychwanegwyd y dylai gynnwys gwybodaeth ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd, i godi ymwybyddiaeth ac i wella dealltwriaeth.

- Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru newid i ddarllen fel a ganlyn: *"Penderfyniadau sy'n gosod cyfeiriad, blaenoriaethau a strategaethau cyffredinol y sefydliad, o ystyried ei amgylched ehangach ac a allai ddylanwadu ar sut y mae'n defnyddio ei adnoddau ariannol a dynol."*

- Awgrymwyd mai penderfyniad strategol yw un sy'n:
  - helpu i sefydlu blaenoriaethau cyffredinol sefydliad, neu sy'n
  - penderfynu ar ei bolisïau allweddol a'i gynlluniau gweithredu, neu sy'n
  - sefydlu ei dargedau, neu sy'n
  - dylanwadu ar ei agweddau cyffredinol, neu sy'n
  - dyrannu ei wariant ar gyfer darparu ei fusnes.

Ychwanegwyd y byddai "*ail ysgrifennu'r diffiniad hwn yn fwy na newid geiriau. Mae'n annog ymgysylltiad â phob agwedd. Mae hefyd yn gwneud yn glir a yw'r gwahanol nodweddion yn 'neu' neu'n 'a. Yn ei ffurf wreiddiol, dim ond rhoi'r argraff mai 'pederfyniad strategol yw un sy'n gosod strategaeth' y mae'r diffiniad. Rydyn ni wedi tynnu'r gair strategaeth o'r diffiniad o 'benderfyniad strategol'. Os yw'r gair yn cael ei gynnwys, mae'r diffiniad yn tueddu i deimlo'n gylchol."*

Anghydraddoldebau canlyniadau

Ystyriaethau:

- cynnwys effeithiau byw ger ardaloedd cyfoethog.
- Mae'r anghydraddoldeb canlyniadau y canolbwyntir arnyn nhw yn achosion ac yn ganlyniadau tlodi.
- Rhy annelwig, ac mae cynnwys cymaint o anghydraddoldebau yn ormod ac yn rhy gymhleth i'r ychydig o gyrff cyhoeddus wneud unrhyw wahaniaeth.
- Mae'n rhaid i'r ddyletswydd dalu sylw i achosion yn ogystal â lliniaru canlyniadau anfanteision economaidd-gymdeithasol.

Angen egluro:

- I fod o gymorth i gyrff cyhoeddus nodi pa grwpiau y dylid eu hystyried, rhestr sy'n gosod safon ofynnol ond nad yw'n rhwystro unrhyw grwpiau neu gymunedau eraill sy'n ymddangos rhag cael eu hystyried.
- Cyfeirio at eithrio cymdeithasol a beth y mae "byw ar incwm isel o gymharu â rhai eraill yng Nghymru" yn ei olygu.
- Ynghylch y ddealltwriaeth o sut y mae teuluoedd "incwm isel" sydd mewn gwaith yn gallu wynebu pwysau ariannol megis fforddio gofal plant, sy'n effeithio ar eu hincwm gwario.
- Beth yw ystyr 'sydd i'w ganfod mewn mannau a chymunedau buddiant"?

Diffiniadau:

- Byddai diffiniadau sy'n berthnasol i brofiadau bob dydd pobl o gydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn fwy effeithiol. Y rhai sy'n byw gydag anfantais economaidd-gymdeithasol fyddai'r rhai gorau i egluro wrth ffurfwyr polisi sut mae hynny'n effeithio ar fywyd bob dydd.
- Cynnwys 'yr effaith a ddisgwylir' yn y diffiniad.
- Mae'r term 'a allai helpu' yn y diffiniad o anfantais economaidd-gymdeithasol yn awgrymu dyletswydd positif, gallai hyn arwain sefydliadau i chwilio am y pethau positif yn hytrach na rhai negyddol.
- Anghytuno gyda geiriad 'ystyried pa mor ddymunol yw ..." sy'n cael ei awgrymu o dan 'sylw dyledus'. Mae'n well gennym ni 'rhaid ystyried yn fwriadol, gyda meddwl agored, a oes yna gyfleoedd i leihau anghyfartaleddau canlyniadau sy'n cael eu hachosi gan anfantais economaidd-gymdeithasol'.
- Dadansoddi'r elfennau allweddol yn y diffiniadau sy'n cael eu hawgrymu o: Incwm isel o gymharu â phobl eraill, Ychydig neu ddim cyfoeth, Amddifadedd materol, a hefyd Amddifadedd ardal.

Anfantais economaidd-gymdeithasol

- Alinio gyda diffiniad Llywodraeth yr Alban o anfantais economaidd-gymdeithasol – er nad yw hynny'n amlwg o destun yr ymgynghoriad, mae diffiniad arfaethedig Llywodraeth Cymru yn alinio gydag un Llywodraeth yr Alban.

Sefydliadau a ymatebodd drwy e-bost:

1. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
2. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
4. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
5. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
6. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
7. Cyngor Sir y Fflint
8. Cyngor Sir Mynyw
9. Cyngor Rhondda Cynon Taf
10. Cyngor Dinas Casnewydd
11. Cyngor Sir Ddinbych
12. Cyngor Sir Ceredigion
13. Cyngor Sir Powys
14. Cyngor Sir Ynys Môn

15. Cyngor Abertawe
16. Cyngor Bro Morgannwg
17. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
18. Llywodraeth Cymru - Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol
19. Conffederasiwn Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru
20. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
21. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
22. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
23. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
24. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
25. Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru
26. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
27. Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre
28. Iechyd Cyhoeddus Cymru
29. Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
30. Coleg Brenhinol y Meddygon
31. Tân ac Achub De Cymru
32. Cyngor Tref y Barri
33. Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan
34. Cyngor Tref Treffynnon
35. Cyngor Cymuned Llanedi
36. Cymdeithas Dai Sir Fynwy
37. Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru
38. Prifysgol Abertawe
39. Swyddfa Archwilio Cymru
40. Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru
41. Chwarae Teg
42. Comisiynydd Plant Cymru
43. Comisiynydd y Gymraeg
44. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
45. Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
46. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
47. Tai Pawb
48. Age Cymru
49. Diverse Cymru
50. Achub y Plant
51. Cyngres Undebau Llafur Cymru
52. Oxfam
53. Synnwyr Bwyd Cymru
54. Shelter Cymru
55. Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru
56. Grŵp Cydraddoldeb De Cymru
57. Child Poverty Action Group
58. Plant yng Nghymru
59. Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
60. Sefydliad Bevan
61. Amgueddfa Genedlaethol Cymru
62. Addysg a Gwella Iechyd Cymru
63. Cwmni2